RHIFYN
ISSUE
14
16.10.19

Llais Llantrisant

NOSWEITHIAU AGORED
OPEN EVENINGS

Mae'n braf i weld fod cymaint ohonoch wedi gwneud apwyntiadau ar gyfer y nosweithiau agored heb drafferth! Os nag ydych wedi gwneud hyn, cofiwch wneud cyn gynted ag y bo modd a chyn i'r system bwcio gau, os gwelwch yn dda.

Gan nad oes Gofalwr Ysgol gennym ar hyn o bryd i oruchwylio a'r ffaith fod gweithfeydd ar yr iard, gofynnir i'r plant beidio â chwarae ar iard yr ysgol yn ystod y nosweithiau agored. Os bydd angen i'r plant fynychu'r apwyntiadau gyda'u rhieni, disgwylir eu bod yn aros gyda'u rhieni trwy gydol eu hamser ar safle'r ysgol ac aros yn dawel y tu fas i'r dosbarth, os gwelwch yn dda. Mae'r plant i gyd wedi derbyn y neges bwysig hon yn ystod gwasanaeth ysgol hefyd. Gwerthfawrogir cydweithrediad pawb.

It's good to see that so many of you have made appointments for the open evenings without any trouble! If you are yet to do so, remember to do this as soon as possible and before the system closes, please.

Since we do not have a School Caretaker at the moment who is able to patrol the site and the fact there are fenced off maintenance works on the school yard, all children are asked not to play on the school yards during the open evenings. If any pupil needs to attend the appointments with their parents, they are expected to remain with their parents throughout their time on the school site and sit quietly outside the classroom, please. All of the children have received this important message during a school assembly. Everyone's cooperation is appreciated.





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

21.10.19 - Noson Agored 1
Open Evening 1
22.10.19 - Ymweliad D7 â'r Bathdy Brenhinol
Class 7's visit to the Royal Mint
24.10.19 - Noson Agored 2
Open Evening 2
24.10.19 - Diwrnod y Cenhedloedd Unedig
United Nations Day
25.10.19 - Ffotograffydd - lluniau unigol
Photographer - individual photographs

PRESENOLDEB A 'SIWPER FYNYCHWR'
ATTENDANCE AND 'SUPER ATTENDER'

Ar 04.10.19, daeth ymwelydd arbennig i'r ysgol i siarad â'r plant yn ein gwasanaeth ddiwedd yr wythnos. Roedd gan 'Siwper Fynychwr' a'i dîm neges bwysig iawn i'w rhannu gyda'r plant. Os nad ydynt yn yr ysgol, maent yn colli mas! Yn amlwg, rhaid i'r plant fod yn yr ysgol i ddysgu. Mae canran presenoldeb yr ysgol yn dda iawn - diolch yn fawr iawn i bawb am wneud pob ymdrech i fynychu'r ysgol! Bwrwch olwg dros dudalen Presenoldeb a thudalen Gwyliau ein gwefan.

On 04.10.19, a special visitor arrived at school to talk to the children in our end of week assembly. 'Super Attender' and his team had a very important message to share with the children. If they aren't in school, they are missing out! Obviously, the children must be in school to learn. The school's attendance percentage is very good indeed - many thanks to everyone for making every effort to ensure good attendance! Have a look at the Attendance page and the Holidays page on our school website.



GWAITH ATGYWEIRIO'R SAFLE
SITE MAINTENANCE

Os ydych wedi ymweld â safle'r ysgol yn ddiweddar, byddwch wedi sylwi fod y gwaith ar do'r ysgol wedi'i orffen! Rydym yn hapus IAWN gyda'r gwaith yma gan nad oes glaw yn dod i mewn rhagor! Symudom i'r safle hon yn 2005 ac mae to'r ysgol wedi gollwng ers yr wythnosau cyntaf felly teimlad braf yw cael neuadd sych! Edrychwn ymlaen at gael hanner arall y to wedi'i drwsio'r flwyddyn nesaf. Yn anffodus, nid yw'r caban wedi'i ail-osod eto ar iard Cyfnod Allweddol 2 ond, gyda phob gobaith, bydd y gwaith yma yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau Hanner Tymor.

If you've visited the school site recently, you are sure to have noticed that the works on the school roof have been completed! We are VERY happy with this work since there is no rain coming in any longer! We moved to this new site in 2005 and the roof has leaked from those very early weeks so it's great to have a dry hall! We look forward to having the other half of the roof replaced next year. Unfortunately, the portakabin is yet to be relocated on the Key Stage 2 yard but, with every hope, this work will be undertaken during the Half Term break.

DIWRNODAU HMS
INSET DAYS

Dyma'r 5 diwrnod HMS a drefnir hyd yn hyn:
Here are the 5 INSET days arranged so far:

02.09.19 ✓
18.11.19
06.01.20
20.04.20
20.07.20
+1 i'w drefnu / *tba*

AIL-GYLCHU *RECYCLING*

Diolch yn fawr iawn i bawb ddaeth â bagiau llawn dillad i'r ysgol ar 11.10.19 ar gyfer ein hymgyrch ail-gylchu dillad @Rags2Riches4Sch. Mae'r pwyllgor Dinasyddion Doeth Senedd Ysgol, yn falch iawn i ddatgan ein bod wedi ail-gylchu 110.6kg o ddillad ac wedi codi £55.30 i'r ysgol. Bydd y pwyllgor yn cwrdd yn fuan i drafod sut i wario'r arian yma!

Many thanks to all those who brought bags of clothing to school on 11.10.19 for our @Rags2Riches4Sch clothing recycling campaign. The Wise Citizens committee of the School Parliament are pleased to announce that we recycled 110.6kg of clothing and raised £55.30 in the process. The committee will meet shortly to decide how they intend to use the money!



Y CYNHAEAF *HARVEST*

Hoffem ddiolch i gymuned yr ysgol am eu rhoddion bwyd hael ar gyfer Banc Bwyd Pontyclun. Daeth y Parchedig Bret i'r ysgol ar 11.10.19 i gynnal Gwasanaeth y Cynhaeaf ac i ddiolch i'r plant i gyd am eu hymdrechion i ysytyried eraill sy'n llai ffodus yn y gymuned.

We should like to thank the school community for their generous contributions of food for Pontyclun Food Bank. The Reverend Bret visited school on 11.10.19 to hold a special Harvest Service and to thank the children for their amazing efforts in considering those less fortunate in the community.





DIWRNOD SHWMAE SU'MAE

SHWMAE SU'MAE DAY



Braf iawn oedd gweld cymaint o blant yn dathlu diwrnod @ShwmaeSumae gyda ni ar 15.10.19. Cofiwch nad oes gorfodaeth ar y plant i wisgo unrhywbeth arall ar ddiwrnodau arbennig fel hyn. Os mai gwisg ysgol yw dewis y plant, mae hynny'n iawn. Cyfloeodd dewisol ydynt i gyd. Y peth olaf hoffem yw i greu strach i rieni i ddod o hyd i ddillad o liw arall am ddiwrnod.

It was great to see so many children celebrating @ShwmaeSumae Day on 15.10.19. Remember that wearing anything other than their school uniform is optional for the children on such days. They are optional opportunities. The last thing we would want is to create trouble for parents to have to find clothing of a certain colour for a day.

GWEITHGARWCH SENEDD YR YSGOL

SCHOOL PARLIAMENT ACTIVITIES

LLAIS LLANTRISANT *LLANTRISANT VOICE*



Wedi iddynt gael eu hethol ar ddechrau'r tymor, daeth aelodau Pwyllgor Llais Llantrisant at ei gilydd i drafod Hawliau Plant ac i ddewis 'Hawl y Mis' ar gyfer yr ysgol gyfan. Penderfynwyd mai Hawl 14 - Eich hawl i ddilyn eich crefydd eich hun - fyddai Hawl Mis Hydref. Aeth y plant ati i greu poster ar gyfer yr ysgol a gosod Hawl 14 ar wefan yr ysgol. Hefyd, treuliodd aelodau hŷn y pwyllgor ychydig o amser i gasglu sylwadau eu cyfoedion o'r blychau sylwadau a leolir o amgylch yr ysgol. Trafodwyd y sylwadau ac aeth aelodau'r pwyllgor ati i siarad â'r plant oedd wedi codi materion.

Following their election at the beginning of the term, the members of the Llais Llantrisant Committee of the School Parliament met to discuss Children's Rights and to decide upon the 'Right of the Month' for the whole school. It was decided that Right number 14 – Your right to follow the religion of your choice - would be chosen for October. The children then created a poster for the school display board and they posted this information on the school website. Also, the older members of the committee spent some time collecting their peers' comments cards from the comment boxes placed around the school. The comments were discussed and the committee members then visited those pupils who had raised issues to discuss them with them.



Y DINASYDDION DOETH *THE WISE CITIZENS*

Etholwyd pwyllgor Dinasyddion Doeth ar ddechrau'r tymor academaidd newydd. Yn unol â gofynion y rhaglen Ecosgolion, bydd y disgyblion yn adolygu'r cynllun gweithredu Eco a'r côd Eco. Penderfynwyd taw disgyblion blynyddoedd 5 a 6 y pwyllgor fydd yn gyfrifol am gasglu'r ailgylchu wythnosol trwy'r ysgol. Hefyd yn ystod y tymor hwn, mae disgyblion y pwyllgor Dinasyddion Doeth wedi cymryd rhan yn her cyngor Rhondda Cynon Taf i ailgylchu hen ddillad ysgol ac hefyd mae'r pwyllgor wedi hybu ymgyrch ailgylchu cwmni 'Rags 2 Riches 4 schools.'

A new Dinasyddion Doeth committee was elected at the beginning of the new academic term. In line with the requirements of the Eco-schools programme, the pupils will amend the yearly Eco Action plan and Eco code. It has been decided that the year 5 and 6 pupils who sit on the committee will be responsible for the weekly recycling collection throughout the school. Also during this half term, the Dinasyddion Doeth pupils have participated in Rhondda Cynon Taff council's school uniform recycling challenge and the 'Rags 2 riches 4 schools' recycling initiative.

Y CRIW DIGIDOL *THE DIGITAL CREW*



Ers cael eu hethol ar ddechrau'r tymor, mae'r Criw Digidol wedi cwrdd i drafod eu gweledigaeth ar gyfer Technoleg Gwybodaeth ar draws yr ysgol. Penderfynwyd bod angen i'r Criw Digidol fod ar gael i holl blant a staff yr ysgol drwy roi cymorth ac awgrymiadau TGCh. Daeth y plant i benderfyniad fod angen pleidlais ar draws yr ysgol i ddewis thema ar gyfer clwb amser cinio (Minecraft, Codio, iMovie neu Garageband). Bydd y plant yn creu posteri er mwyn hysbysebu'r clwb, ac yn y dyfodol, yn rhedeg y clwb yn annibynnol. Bydd y Criw hefyd yn mynd ati i gynnal clybiau gyda phlant y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol agos.

Since being elected at the beginning of term, The Digital Crew have met to discuss their vision for ICT across the school. It was decided that The Digital Crew need to be available to pupils and staff to offer support and guidance on all ICT. The Digital Crew decided to create an electronic vote to ask the children what club they would like to see during their lunch hour (Minecraft, Coding, iMovie or Garageband). They will create a poster to advertise the club, and in the future, will run the club independently. The Digital Crew will also plan clubs for the Foundation Phase children in the future.

YSGOL LLANHARI

YSGOL LLANHARI

Treuliodd disgyblion Blwyddyn 6 ddau ddiwrnod yn Ysgol Llanhari yn ddiweddar yn cael blas ar fywyd, gwaith a gwersi'r ysgol Uwchradd. Cafwyd croeso gwresog ac amserlen llawn gweithgareddau cyffrous ar thema Cwpan Rygbi'r Byd. Diolch yn fawr iawn i staff Ysgol Llanhari am drefnu rhaglen pontio llwyddiannus arall!

Braf iawn oedd clywed am lwyddiannau disgyblion Ysgol Llanhari eleni yn eu haroliadau TGAU a Safon Uwch. Bu llawer o ddathlu gyda nifer fawr o'n cyn-ddisgyblion a'u cyfoedion yn mynd ymlaen i astudio yn y Coleg neu'r Brifysgol. Llongyfarchiadau mawr i bawb!

Two days were spent at Ysgol Llanhari recently with our Year 6 pupils having a taste of life, work and lessons in Secondary school. They had a very warm welcome and a timetable full of exciting activities based around the Rugby World Cup. Many thanks to the staff at Ysgol Llanhari for arranging yet another successful transition programme!

It was great to hear about the success of Ysgol Llanhari pupils this year in their GCSE and A Level examinations. There was much celebration with many of our past pupils and their peers going on to study in college or University. Many congratulations to all!





Oriel / *Gallery*

Y CRIW CYMWYNASGAR *THE HELPING HANDS*



Daeth pwyllgor etholedig newydd 'Y Criw Cymwynasgar' at ei gilydd yn ddiweddar i drafod syniadau. Trafododd y disgyblion eu bod yn awyddus i gynllunio bathodynnau neu gael bibs lliwgar fel eu bod yn gallu cael eu hadnabod yn haws ar yr iard gan blant sydd eisiau help neu eisiau trafod eu teimladau. Cynlluniodd y plant wasanaeth ar gyfer wythnos gwrth-fwlio fydd yn ffocysu ar sut i fod yn ffrind da, gwahanol fathau o fwlio a byddant yn cyflwyno cystadleuaeth creu poster neu ysgrifennu cerdd gwrth-fwlio (CA2) a sut i fod yn ffrind da (CS) yn y gwasanaeth. Penderfynodd y pwyllgor y byddant yn rhoi y posteri buddugol i fyny o gwmpas yr ysgol. Maent am barhau i chwarae gemau buarth gyda phlant y Cyfnod Sylfaen ac am greu blwch teimladau i'w roi mewn man penodedig ar gyfer plant sydd ddim eisiau rhannu pryderon ar lafar.

The newly elected members of 'Criw Cymwynasgar' came together recently to discuss ideas. The pupils were eager to design badges or buy bright bibs to put over their clothes which would make them stand out on the yard to children who needed their help, or wanted to discuss concerns with them. They produced an assembly to introduce to the whole school during anti-bullying week about how to be a good friend and different types of bullying. They will also introduce a whole-school competition which will involve the children in KS2 designing a poster or writing an anti-bullying poem and pupils in Foundation Phase will be asked to create a poster about how to be a good friend. It was decided that the winning posters would be displayed around the school. The children are keen to continue playing games with the younger children on the yard and are going to create a feelings box which will be placed in a designated area for the children who don't wish to share concerns verbally.

Y CRIW CYMRAEG *THE WELSH CREW*

Yng nghyfarfod cyntaf y Criw Cymraeg, trafodwyd syniadau ar sut i ail-ddechrau'r Siart Cymreictod ymhob dosbarth. Penderfynwyd y byddai aelodau Blwyddyn 6 y Criw Cymraeg yn ymweld â phob dosbarth i atgoffa pawb i ddefnyddio'r Siart. Byddant hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod pob aelod o'r Criw yn casglu sgôr y Siart yn eu tro fore Gwener cyn y gwasanaeth.

Trafodwyd syniadau ar sut i ddathlu Diwrnod Su'mae Shwmae ar 15.10.19. Cytunodd y Criw i ofyn i bob dosbarth greu pennill bachog gan ddefnyddio cystrawen yr wythnos ac fe fyddant yn cyflwyno hyn yn y gwasanaeth. Yn ogystal, gofynnodd aelodau Blwyddyn 6 y criw ganiatad Mr O'Neil i bawb wisgo dillad coch, gwyn neu gwyrdd ar y diwrnod.

In the Criw Cymraeg's first meeting, the members discussed ideas about how to re-introduce the Welsh chart in each class. It was decided that the Year 6 members of the Criw Cymraeg would visit each class to remind everyone to use the chart. It was also agreed that they would be responsible for ensuring every member will take turns to collect the scores every Friday morning before the assembly. Ideas for celebrating Su'mae Shwmae Day on 15.10.19 were also discussed. The members decided to ask each class to write a catchy verse using the phrase of the week and they will present this to the school in the assembly. Also, the Year 6 members asked Mr O'Neil's permission for everyone to wear red, white or green on the day.

YSGOLION IACH *HEALTHY SCHOOLS*



Wedi cyfarfod aelodau newydd o'r ysgolion iach, cytunwyd i annog a hysbysu rhieni a phlant ynghylch Siop Bwyta'n Iach yr ysgol, penderfynwyd creu posteri i'w gosod o amgylch yr ysgol ar gyfer y Nosweithiau Agored a hefyd yn yr hysbysfwrdd wrth glwyd yr ysgol. Ers ymweliad y Pwyllgor Ysgolion Iach yn yr haf gyda Mrs Willis a Cyng. Griffiths, mae aelodau o'r pwyllgor wedi bod i'r siopau i sicrhau bod poteli y cyhoedd yn cael eu llenwi â dŵr yn rhad ac am ddim. Rydym yn hapus i ddweud eu bod wedi gwneud hynny. Mae aelodau hŷn y pwyllgor yn awyddus i greu erthygl papur newyddion ar gyfer rhifyn nesaf Llais Llantrisant i gynnig cyfarwyddyd ynghylch beth sy'n addas i'w gynnwys ym mocsys brechdanau'r plant.

Following a meeting of the newly elected members of the committee, it was decided to inform and encourage parents and pupils to use the Healthy Eating shop in school, members of the committee would create posters to place around the school prior to Parents' Evenings and also to be put in the noticeboard at the school gate. Since the committee visited Pontyclun in the summer with Mrs Willis and Cllr. Griffiths, members of the committee have been to the shops to monitor that shop keepers are in fact refilling water bottles for the general public. We are happy to report that they are! Some of the older members of the Healthy School's committee are keen to produce an article for the next edition of Llais Llantrisant, offering guidance on what constitutes a healthy packed lunch.

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**